Wild About Gardens

#WildAboutGardens

wildaboutgardens.org.uk



# Gwneud ffrindiau gyda **molysgiaid**

## Gardd gyda gwlithod a malwod

The Wildlife Trusts

RHS

# Dangos rhywfaint o gariad at wlithod

Mewn arolwg poblogrwydd o fywyd gwyllt yr ardd, mae'n debyg na fyddai gwlithod a malwod yn sgorio'n uchel iawn. Ond ydyn nhw wir yn haeddu enw mor ddrwg? Mae tua 150 o rywogaethau o wlithod a malwod yn y DU, gyda mwy fyth yn cynnwys y rhai yn ein moroedd ni. Dim ond llond llaw o'r rhain sy'n achosi unrhyw broblemau i arddwyr - ac allwn ni wir feio'r ychydig rai hynny am fwynhau danteithion blasus?

Mae gwlithod a malwod yn greaduriaid anhygoel, gan ddod â digon o fanteision i'n gerddi ni. Mae'n amser rhoi enw da iddyn nhw. Helpwch ni i hyrwyddo'r molysgiaid gwych yma.



Darllenwch ymlaen i ddarganfod mwy fyth o resymau dros hoffi gwlithod a malwod, yn ogystal â sut i ddod o hyd i gydbwysedd hapus gyda nhw yn eich gardd.

## Tri rheswm dros werthfawrogi gwlithod a malwod:

### 1 Dyma griw glanhau byd natur

Mae gwlithod a malwod yn bwydo ar blanhigion sy'n pydru, ffyngau, tail a hyd yn oed anifeiliaid marw, gan helpu i ailgylchu maethynnau yn ôl i'r pridd.

### 2 Maen nhw'n ffynhonnell fwyd i anifeiliaid eraill

Mae llawer o ymwelwyr gardd eraill yn bwyta gwlithod a malwod, gan gynnwys rhai o'n cymdogion gwyllt mwyaf poblogaidd ni – o ddraenogod i fronfreithod.

### 3 Maen nhw'n gwbl ryfedd a rhyfeddol

Mae mwy o ffeithiau rhyfeddol am wlithod a malwod nag y gallem eu cynnwys yn y llyfryn yma – ond fe fyddwn ni'n gwasgu cymaint ag y gallwn ni i mewn!

**Malwen** © Tom Marshall
**Llun y clawr: Malwen** © Jon Hawkins/ Surrey Hills Photography

# Gwlithod o gymharu â Malwod

## Cyfrinach y cregyn



Mae gwlithod a malwod, ynghyd ag anifeiliaid eraill gan gynnwys cregyn tro a llygaid meheryn, yn gastropodau.

Mae gastropod yn anifail un gragen gyda chorff meddal sy'n perthyn i grŵp y molysgiaid o anifeiliaid.

Daw'r enw gastropod o'r geiriau Groegaidd, gaster, sy'n golygu stumog, a poda, sy'n golygu traed. Mae gan bob gastropod droed gyhyrol maent yn ei defnyddio i symud o gwmpas.

Mae malwod yn cael eu dosbarthu yn ôl eu cragen allanol galed. Wrth siarad yn esblygiadol, malwod ddaeth yn gyntaf, gyda gwlithod yn esblygu sawl gwaith o falwod hynafol. Mae cilio yn allweddol - i gael eich ystyried yn falwen mae'n rhaid i chi allu cilio'n ôl i'ch cragen.

Credwch neu beidio, mae gan wlithod a malwod gregyn!

Credwch neu beidio, mae gan wlithod a malwod gregyn! Mae gwlithod hefyd yn berchnogion balch ar gregyn. Mae cregyn gwlithod yn llai nag ewin fel arfer. Weithiau mae'r gragen ar ffurf plât bach sy'n cael ei gludo ar flaen y gynffon, neu o dan gefn eu mantell, ac weithiau dim ond ychydig o ronynnau o galsiwm carbonad ydi'r gragen.



**Gwlithen ddu fawr** © Nick Upton/2020Vision
**Malwen Caint** © Jon Hawkins/ Surrey Hills Photography

# Ffeithiau am falwod


1. Mae tua 100 o rywogaethau o falwod y tir, a dim ond ychydig filimetrau o faint ydi llawer ohonyn nhw.
2. Mae malwod yn cael eu bwyta fel bwyd mewn llawer o lefydd, ond allwch chi ddim gwledda ar yr ymwelwyr â'ch gardd – mae'n rhaid i falwod bwytadwy gael eu magu'n arbennig i osgoi parasitiaid fel llyngyr yr ysgyfaint.
3. Ydych chi wedi clywed am led-wlithod erioed? Malwod gyda chragen dorchog lawn sy'n rhy fach iddyn nhw gilio eu corff yn ôl yn gyfan gwbl iddi ydi lled-wlithod.
4. Yn hytrach na chladdu eu hunain o dan y ddaear, mae rhai malwod yn swatio gyda'i gilydd ac yn selio'u hunain yn eu cregyn dros y gaeaf gan ddefnyddio pilen o'r enw 'epiffram'. Efallai y byddwch chi'n eu gweld nhw mewn corneli cysgodol o'ch gardd fel o dan bentyrrau o botiau gardd neu mewn agennau mewn wal gerrig.
5. Mae angen calsiwm ar falwod i adeiladu eu cregyn allanol caled. Mae hyn yn golygu y byddwch chi'n dod o hyd i fwy o amrywiaeth o falwod mewn cynefinoedd llawn calsiwm fel sialc neu galchfaen. **Gallwch ddarganfod mwy am eich math o bridd ar wefan RHS.**
6. Malwod Rhufeinig ydi'r malwod tir mwyaf yng ngogledd orllewin Ewrop, gan gyrraedd hyd at 4.5cm o hyd. Mae hynny tua maint ŵy iâr! Mae'n rhywogaeth warchodedig sydd pur anaml i'w gweld yn y DU.

## Ffeithiau am falwod

1. Mae rhai rhywogaethau'n bwydo ar algâu a chennau ac mae rhai yn ysglyfaethus, er enghraifft, yn bwydo ar bryfed genwair.
2. Mae pob gwlithen bron, a'r rhan fwyaf o falwod, yn ddeurywiaid, sy'n golygu bod ganddyn nhw organau atgenhedlu gwrywaidd a benywaidd.
3. Nid oes llawer o rywogaethau'n bwydo ar blanhigion byw, yn hytrach maen nhw'n falurysorion, yn bwyta planhigion marw, ffyngau ac anifeiliaid marw.
4. Mae eu gwaed (hemolymff) yn las golau / llwyd.



# Ffeithiau am wlithod



## a gwlithod

5. Pan fydd dau unigolyn yn paru, gall y ddau gael eu hwyau wedi'u ffrwythloni.
6. Mae gwlithod a malwod yn nosol ar y cyfan, felly dyma pam nad ydych chi bob amser yn eu gweld nhw'n bwyta planhigion, dim ond y tyllau maen nhw'n eu gadael ar ôl.
7. Mae eu golwg yn wael – maen nhw'n canfod bwyd, lleithder a darpar gymar drwy arogl a blas drwy dentaclau, gwefusau a gwadn y droed.
8. Mae ganddyn nhw tua 2,000 i 8,000 o ddannedd mân ar strwythur tebyg i ruban (o'r enw radwla) y maen nhw'n ei ddefnyddio i grafu bwyd i ffwrdd, yn debyg i declyn gratio caws.
9. Mae'r rhan fwyaf yn pŵ ac yn anadlu o agoriad ar ochr dde eu pen.

1. Gall gwlithen ddodwy mwy na 100 o wyau; mae rhai yn dodwy sawl gwaith y flwyddyn.
2. Yn Ynysoedd Prydain mae o leiaf 44 o rywogaethau o wlithod, a dim ond tua naw ohonyn nhw sy'n achosi problemau i arddwyr yn ôl yr hyn rydyn ni'n ei wybod.
3. Mae gwlithod yn deor o wyau a dydyn nhw ddim yn cael cyfnod larfal.
4. Mae gwlithod yn hoffi bwydo ar eu hoff fwyd yn gyntaf, wedyn unwaith bydd y rhain i gyd wedi'u bwyta maen nhw'n mynd am eu ffefryn nesaf ac yn y blaen ... yn y gwyllt mae hyn yn siapio'r cymunedau o blanhigion ac, yn ei dro, anifeiliaid eraill y gymuned honno.
5. Mae cael cragen fach iawn yn golygu bod gwlithod yn gallu gwasgu drwy fylchau mân iawn, a dyma sut maen nhw'n teithio ac yn cuddio o dan y ddaear.
6. Rydyn ni'n gwybod bod gan rai rhywogaethau o wlithod allu i ddychwelyd adref, yn seiliedig ar arogl ac o bosibl y cof.

**Gwlithen** © Alan Price
**Malwen finwen** © Nick Upton/2020Vision

# Adnabod gwlithod

Gall gwlithod fod yn anodd iawn eu hadnabod! Dim ond canllaw bras ydi hwn sy'n dangos rhai o'r gwlithod yn y DU

**40 i 50mm fel rheol**



☐ Gwlithen dair rhes

*Ambigolimax spp.*

**75 i 180mm**



Yn amrywio mewn lliw – angen arbenigwr i wahaniaethu rhyngddi a gwlithen fawr ddu a gwlithen Sbaen

☐ Gwlithen goch fawr

*Arion rufus*

**50 i 100mm fel rheol**



☐ Gwlithen wadn werdd

*Arion flagellus*

**50 i 70mm fel rheol**



☐ Gwlithen dywyll

*Arion subfuscus*

**Hyd at 20mm**



Yn fwy cyffredin mewn dolydd

☐ Gwlithen bigog

*Arion intermedius*

**35 i 50mm fel rheol**



☐ Gwlithen faes rwydog

*Deroceras reticulatum*

**70 i 130mm fel rheol**



☐ Gwlithen seler werdd

*Limacus maculatus*

**100 i 150mm fel rheol**



☐ Gwlithen fannog

*Limax maximus*

**20 i 40mm fel rheol**



☐ Gwlithen wrymiog Budapest

*Tandonia budapestensis*

**Hyd at 75mm**



Prin!

☐ Gwlithen wen

*Selenochlamys ysbryda*

Darlun: Corinne Welch © Hawlfraint Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur 2024

www.wildaboutgardens.org.uk

Hyd wedi'i restru mewn glas

# Adnabod malwod

Gall malwod fod yn anodd iawn eu hadnabod! Dim ond canllaw bras ydi hwn sy'n dangos rhai o'r malwod yn y DU

Wild About Gardens

9 i 12mm



☐ Malwen ddrws ddeuddant

*Clausilia bidentata*

Hyd at 7.5mm



☐ Malwen gron

*Discus rotundatus*

Llai na 7mm



☐ Malwen garlleg

*Oxychilus alliarius*

20 i 24mm



☐ Malwen finlwyd

*Cepaea nemoralis*

16 i 22mm



☐ Malwen finwen

*Cepaea hortensis*

Hyd at 40mm



☐ Malwen yr ardd

*Cornu aspersum*

10 i 12mm



☐ Malwen wregysog

*Hygromia cinctella*

11 i 14mm



☐ Malwen Caint

*Monacha cantiana*

6 i 10mm



☐ Malwen flewog

*Trochulus hispidus*

11 i 14mm



☐ Malwen y mefus

*Trochulus striolatus*

Darlun: Corinne Welch © Hawlfraint Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur 2024

www.wildaboutgardens.org.uk

Diametrau'r cregyn wedi'u rhestru mewn glas

# Manteision gwlithod a malwod

Mae gwlithod a malwod yn aelodau pwysig o boblogaeth bywyd gwyllt ein gerddi ni. Nid yn unig maen nhw'n ffynhonnell fwyd allweddol i greaduriaid eraill yn yr ardd (mwy am hynny yn nes ymlaen), ond maen nhw hefyd yn chwarae rhan bwysig yng nghylch bywyd eich gardd.

- Meddyliwch amdanyn nhw fel gwasanaeth gwastraff gardd am ddim! Mae malurysorion (fel gwlithod seler) yn arbenigwyr ar ailgylchu maethynnau. Maen nhw'n dadelfennu sbwriel planhigion a dail, gan ddychwelyd nitrogen, maethynnau a mwynau i'r pridd. Gallant wneud hyn yn y fan a'r lle, gan greu tomwellt maethlon ar eich gwelyau, neu mewn tomen gompost.

- Gallant dacluso unrhyw beth! Nid dim ond deunydd planhigion maen nhw'n ei fwynhau; maen nhw'n glanhau popeth o fadarch i anifeiliaid marw a thail!

- Wedi sylwi ar lwybrau malwod ar dŷ gwydr erioed? Bydd gwlithod a malwod yn bwyta'r algâu oddi ar wydr tŷ gwydr.

- Gall gwlithod chwarae rhan bwysig hefyd wrth wasgaru hadau, gyda rhai hadau planhigion yn gallu goroesi cael eu bwyta gan wlithod, a thyfu'n llwyddiannus wedyn ar ôl cael eu gwaredu (mewn pŵ!) mewn lleoliad gwahanol. Mewn rhai achosion, dangoswyd bod pasio drwy wlithen yn cynyddu llwyddiant egino hadau.



**Gwlithen fannog** © Vaughn Matthews

# Rheolaeth gyfeillgar i wlithod



Y ffordd orau o drin gwlithod a malwod yw drwy blannu'r planhigyn iawn yn y lle iawn! Os ydych chi'n gwybod bod gennych chi boblogaeth fawr o wlithod, mae'n well peidio â thyfu planhigion sy'n agored i niwed gan wlithod. Dysgu cydfodoli gyda'ch cymdogion llysnafeddog ydi'r opsiwn mwyaf effeithiol.

Tyfwch eich planhigion dan do am gyn hired â phosibl cyn eu plannu. Planhigion ifanc, tyner ydi'r rhai mwyaf blasus i wlithod a malwod!

Os byddwch chi'n mynd allan yn y gwyll ac yn gweld gwlithen neu falwen yn gwledda ar eich planhigion gorau, codwch hi a'i rhoi ar eich tomen gompost. Dydyn ni ddim yn cynghori symud gwlithod y tu hwnt i ffin eich gardd oherwydd gall hyn gynyddu lledaeniad rhywogaethau estron.

Mewn astudiaeth ddiweddar gan yr RHS, bu'r prif entomolegydd a'r ymchwilydd arweiniol, Hayley Jones, yn profi nifer o rwystrau gwlithod traddodiadol o amgylch planhigion letys am chwe wythnos.

Y rhwystrau a ddefnyddiodd oedd:
- plisg wyau wedi'u malu
- tomwellt rhisgl pinwydd
- tâp copr
- graean garddwriaethol miniog
- peledi gwlân

Fe welodd hi nad oedd yr un ohonyn nhw'n effeithiol erbyn diwedd y cyfnod astudio o chwe wythnos, ond dydi hynny ddim yn golygu na allwch chi arbrofi i weld beth sy'n gweithio yn eich gofod chi.


**Dywedodd Hayley:**

*"Dydw i ddim wedi rhoi'r gorau i rwystrau eto, mae copr wedi gweithio mewn rhai astudiaethau ac efallai y bydd peledi gwlân yn cael effaith dymor byr. Ond dydi plisg wyau'n dda i ddim, mae gwlithod a malwod yn gallu gwneud mwcws trwchus ychwanegol i deithio dros unrhyw beth miniog, ac mae ffynhonnell o galsiwm yn gallu bod yn ddeniadol iddyn nhw mewn gwirionedd!"*

**Darllenwch ganfyddiadau llawn ymchwil Hayley.**

**Malwen finwen** © Guy Edwardes/2020Vision

# Croeso i wlithod a malwod




**Tyfwch blanhigion dringo** i ddarparu mwy o gysgod oeri.

**Gadewch rai planhigion** i'r gwlithod. Maen nhw wrth eu bodd gyda phys pêr, tiwlips a dahlias.

**Mae pentyrrau o foncyffion** a **simneiau o botiau teracota** yn cynnig cysgod.


Mae **llwyni** a **dail trwchus** yn creu llecynnau cysgodol.

Mae **pyllau'n** denu ysglyfaethwyr sy'n helpu i gynnal cydbwysedd naturiol. Maen nhw hefyd yn gartrefi i falwod y pwll!

Mae **glaswellt talach** yn aros yn oerach ac yn lleithach.

**Darluniau gan** © Corinne Welch

# Byw gyda gwlithod a malwod




Os oes gennych chi le, **gwarchodwch eich cynnyrch mwyaf bregus** mewn tŷ gwydr.

**Tyfwch eginblanhigion** i faint mwy dan do cyn eu plannu allan.

Gellir rhoi **gorchudd dros** drawsblaniadau sydd wedi'u plannu o'r newydd.

Mae gwlithod yn llai hoff o **blanhigion sy'n arogli'n gryf** fel nionod a pherlysiau.

Casglwch wlithod oddi ar gynnyrch yn y nos a'u **symud nhw i'r bin compost.**

# Helwyr gwlithod a malwod

Pan fyddwn ni'n edrych ar wlithen neu falwen, dydyn nhw ddim yn edrych yn flasus iawn fel rheol. Ond mae llawer o'n cymdogion gwyllt ni'n eu gweld nhw'n wahanol. I lu o anifeiliaid, maen nhw'n ddanteithfwyd moethus, llysnafeddog. Beth am i ni edrych ar rai o'r creaduriaid sy'n bwyta gwlithod a malwod y gallech chi ddod ar eu traws mewn gardd!

## Chwilod daear

Mae digonedd o chwilod sy'n gwledda ar wlithod a malwod, gan gynnwys llawer o'r chwilod daear – sy'n cael eu galw hefyd yn chwilod carabid. Mae *Carabus nemoralis* yn bwyta cymaint o wlithod fel ei bod wedi cael ei harchwilio fel ffordd naturiol o warchod cnydau rhagddyn nhw. Mae *Carabus granulatus* yn gwthio blaen ei phen i mewn i gragen malwen ac yn defnyddio ei mandiblau i rwygo talpiau allan ohoni. Rydyn ni'n gwybod bod *Pterostichus melanarius* yn dilyn llwybrau llysnafedd gwlithod i ddod o hyd i'w hysglyfaeth.

## Bronfraith

Mae gan fronfreithod ffordd lai cynnil o fynd i mewn i gragen malwen. Maen nhw'n cydio yn y gragen gerfydd ei hymyl, yn mynd â hi at graig neu arwyneb caled arall ac yn dechrau ei malu! Yr enw ar yr arwyneb caled maen nhw'n ei ddefnyddio ydi einion – am resymau amlwg. Mae gan fronfreithod hoff einion ac maen nhw'n dychwelyd ato dro ar ôl tro. Gwrandewch am eu sŵn taro nodweddiadol wrth iddyn nhw agor y cregyn!



## Chwilen falwen ddu

Fel mae'r enw'n awgrymu, mae'r chwilen ysglyfaethus yma'n arbenigwr ar falwod. Mae'n brathu'r falwen ar gefn y pen, gan ei pharlysu'n gyflym. Mae hylifau o geg y chwilen yn dechrau treulio'r falwen, ac mae'r chwilen yn ei slochian. Wrth iddi fwydo, bydd yn gwthio ei hun yn ddyfnach i gragen y falwen, gan ddiflannu'n llwyr bron weithiau. Dydi hi ddim yn rhuthro i fwyta'i chinio - gall gymryd mwy na 12 awr i fwyta un falwen.

## Amffibiaid

Rydyn ni'n meddwl am frogaod, llyffantod a madfallod dŵr fel bywyd gwyllt sy'n hoff o ddŵr, ond mae'r oedolion yn treulio llawer o'u hamser ar y tir. Yma maen nhw'n hela amrywiaeth eang o infertebrata, gan gynnwys gwlithod a malwod. Mae madfallod dŵr hyd yn oed wedi cael eu darganfod yn dringo planhigion, yn chwilio am wlithod o bosibl.

## Draenogod

Mae'n wir bod draenogod yn bwyta gwlithod a malwod, ond dim ond rhan fechan o'u deiet naturiol ydi'r rhain. Felly mae angen i ardd sy'n gyfeillgar i ddraenogod fod yn llawn o fwyd arall ar ffurf infertebrata, fel chwilod, pryfed genwair a nadroedd miltroed hefyd.

**Mae cyngor ar gyfer eu helpu nhw ar gael yn ein llyfryn draenogod**

**Bronfraith** © Alan Williams/naturepl.com

# Helpu'r helwyr

## Buddsoddi mewn clawdd chwilod

Ychwanegwch ddimensiwn arall at ardd fflat gyda chlawdd chwilod. Dewiswch lecyn heulog a phentyrru twmpath o uwchbridd i 30cm o uchder. Ewch ati i'w hadu gyda hadau glaswellt neu flodau gwyllt a gadewch iddo dyfu'n dal drwy'r haf. Bydd yn darparu cymysgedd o lecynnau heulog a chysgodol ar gyfer llu o fân drychfilod.

**Mwy o wybodaeth yn ein llyfryn ni, *Dewch â'n chwilod yn ôl***

## Ychwanegu einion

Gwnewch yn siŵr bod o leiaf un garreg wastad braf yn eich gardd chi y gall bronfreithod ei defnyddio i dorri cregyn malwod. Fel bonws ychwanegol, bydd adar eraill yn ymweld ag einion bronfreithod i gasglu darnau o gregyn wedi'u torri – maen nhw'n ffynhonnell wych o galsiwm!

## Pentyrru boncyffion

Os ydych chi eisiau annog chwilod, mae pren marw yn dda iawn. Ewch ati i adeiladu pentwr o foncyffion yn eich gardd a byddwch yn creu lloches berffaith i lu o bryfed a bywyd gwyllt arall. Gallwch gael boncyffion gan bobl trin coed neu werthwyr coed tân, cofiwch beidio â mynd â nhw o goedwigoedd neu warchodfeydd natur lle maen nhw eisoes yn gartref i fywyd gwyllt. Suddwch ychydig o foncyffion yn y pridd i greu cynefin mwy diddorol fyth.



***Carabus nemoralis*** © Will Atkins



**Frog** © Mark Hamblin/2020Vision

## Creu sblash

Ychwanegu dŵr ydi un o'r pethau gorau y gallwch chi ei wneud i ddenu bywyd gwyllt i'ch gardd. Os nad oes gennych chi le i bwll mawr gwych, fe all pwll cynhwysydd bach fod yn effeithiol iawn yr un fath. Bydd adar yn ymweld i yfed ac ymdrochi, ac efallai y byddwch chi'n denu brogaod neu fadfallod dŵr sy'n magu.

**Mwy o wybodaeth yn ein llyfryn ni,** *Mawr neu fach, pyllau i bawb*

## Popeth fel y mae

Y peth hawsaf i'w wneud dros fyd natur ydi gwneud dim! Cymerwch seibiant a gadewch i rannau o'ch gardd dyfu'n wyllt. Mae glaswellt tal yn dir hela i chwilod ac amffibiaid. Mae pentyrrau o ddail wedi syrthio yn cysgodi pryfed a draenogod hyd yn oed. Mae pennau hadau'n lle i bryfed guddio ynddo dros y gaeaf.

## Llwyni lu

Mae coed a llwyni yn cynnig lle diogel i adar glwydo a nythu. Bydd cymysgedd o goed a llwyni brodorol, fel y ddraenen ddu, y ddraenen wen, afalau surion bach a chriafol, yn darparu bwyd yn ogystal â chysgod. Os gallwch chi, gosodwch wrych yn ei le yn lle ffens er mwyn rhoi llwybr mynediad hawdd i'ch gardd i anifeiliaid sydd ddim yn hedfan.

# Saffari gwlithod a malwod



## Bydd angen

- Dillad cynnes sy'n dal dŵr



- Tortsh / lamp pen



## Pethau ychwanegol dewisol

- Potyn
- Lens llaw neu chwyddwydr
- Llyfr adnabod gwlithod / malwod






1. Dewiswch ddiwrnod mwyn gyda thywydd glawog neu laith (mae gwlithod yn casáu tywydd lle maen nhw'n sychu'n gyflym).
2. Yr amser gorau i edrych yw tua 1 i 3 awr ar ôl machlud haul, neu yn gynnar yn y bore pan mae'n dywyll o hyd.
3. Edrychwch o dan foncyffion coed, potiau a phlanhigion, mewn tomenni compost, dail wedi cyrlio ac unrhyw ardaloedd oer, gwlyb.
4. Mae gwlithod yn anodd iawn eu hadnabod! Mwynhewch ddod o hyd iddyn nhw a cheisio gweld rhai sy'n edrych yn wahanol.
5. Gall lliw y llysnafedd helpu i adnabod rhai rhywogaethau. Rhowch hances bapur wen ar gefn eich gwlithen yn ofalus i weld pa liw ydi'r llysnafedd.
6. Unwaith y byddwch chi wedi rhoi cynnig ar eu hadnabod, rhyddhewch y gwlithod a'r malwod yn ôl i'r man lle daethoch chi o hyd iddyn nhw. Cofiwch olchi eich dwylo ar ôl cyffwrdd â nhw.

I adnabod gwlithen anodd, daliwch hi'n ofalus a mynd â hi adref i astudio. Rhowch hi mewn cynhwysydd gyda thyllau bach ar gyfer aer, rhywfaint o ddail fel bwyd, a hances bapur laith.



www.wildaboutgardens.org.uk

Darlun: Corinne Welch © Hawlfraint Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur 2024

# Creu arwydd croeso

## Bydd angen

- Darn fflat o bren, llechen neu unrhyw ddeunydd addas



- Rhywbeth i ysgrifennu ag ef. Defnyddiwch hen feiros/paent. Os ydych chi'n prynu rhai newydd, edrychwch am opsiynau ecogyfeillgar. Neu gasglu hen ddeunyddiau y gallwch chi eu defnyddio i grefftio geiriau



- Papur tywod (os ydych chi'n defnyddio pren)







1. Dewiswch eich deunydd! Fe allech chi ddefnyddio pren, llechen, bwrdd sialc neu unrhyw beth arall sy'n eich ysbrydoli chi.



Oes unrhyw hen bethau o gwmpas eich tŷ neu'r ardd y gallech eu hailgylchu fel arwydd? Cynwysyddion gwag, potiau wedi torri – gallai cerrig weithio hyd yn oed.



2. Os ydych chi'n defnyddio pren, llyfnwch unrhyw ymylon garw gyda rhywfaint o bapur tywod.







3. Addurnwch eich arwydd. Ysgrifennu neu greu neges groeso i wlithod a malwod. Dewch ag ef yn fyw gyda chelf. Byddwch yn greadigol!




4. Rhowch yr arwydd yn eich gardd, i ddangos eich bod yn croesawu criw glanhau byd natur.




Mae hyn yn ymwneud â dangos eich cefnogaeth i'r creaduriaid yma yn eich gardd.




Darlun: Corinne Welch © Hawlfraint Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur 2024

www.wildaboutgardens.org.uk ← Ewch ati i addo eich cefnogaeth i wlithod a malwod yma

# Amdanom ni



Mae’r Ymddiriedolaethau Natur a'r RHS wedi creu Gwyllt Am Erddi i ddathlu garddio er budd bywyd gwyllt ac i annog pobl i weithredu dros fyd natur. Yn ystod y 50 mlynedd diwethaf, rydyn ni wedi gweld dirywiad mewn dwy ran o dair o’r rhywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid yn y DU. Mae llawer o’r ymwelwyr cyffredin â gerddi – gan gynnwys draenogod, adar y to a drudwy – dan fygythiad cynyddol, ond gyda’i gilydd gall gerddi wneud gwahaniaeth anhygoel. I ddarganfod mwy am arddio er budd bywyd gwyllt ac am fwy o adnoddau, ewch i'n gwefan ni. Gallwch hefyd gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr misol i dderbyn diweddariadau a syniadau am bopeth yn ymwneud â Gwyllt Am Erddi.

## Yr Ymddiriedolaethau Natur

Mae gan yr Ymddiriedolaethau Natur genhadaeth i adfer traean o diroedd a moroedd y DU ar gyfer byd natur erbyn 2030. Rydyn ni’n credu y dylai pawb, ym mhob man, gael mynediad at natur a’r pleser a’r buddion iechyd a ddaw yn ei sgil. Dim ots ble rydych chi yn y DU, mae Ymddiriedolaeth Natur sy'n ysbrydoli pobl am natur ac yn sefyll dros fywyd gwyllt a llefydd gwyllt yn eich ardal chi. Mae pob Ymddiriedolaeth Natur yn elusen annibynnol wedi’i ffurfio wrth i bobl ddod at ei gilydd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd gwyllt, yr hinsawdd a chenedlaethau’r dyfodol. Gyda’n gilydd rydyn ni’n gofalu am 2,300 o warchodfeydd natur amrywiol a hardd ac yn gweithio gydag eraill i reoli eu tir ar gyfer natur hefyd. Fe allwch chi ein helpu ni i ddod â bywyd gwyllt toreithiog yn ôl drwy ddod yn aelod o'ch Ymddiriedolaeth Natur heddiw.

**E-bost:** enquiry@wildlifetrusts.org
**Gwefan:** wildlifetrusts.org

@WildlifeTrusts

/wildlifetrusts

Thewildlifetrusts

@wildlifetrusts

Rhif Cofrestru'r Elusen 207238

## Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol

Am fwy na 210 o flynyddoedd, mae'r RHS wedi bod yn rym y tu ôl i arddio yn y DU. Ein nod ni yw cyfoethogi bywydau pawb drwy blanhigion, a gwneud y DU yn lle gwyrddach a harddach. Rydyn ni’n credu y dylai pawb ym mhob pentref, tref a dinas elwa o dyfu – er mwyn cael cymunedau cryfach, iachach a hapusach. Dim ond drwy gefnogaeth hael ein hymwelwyr, aelodau, partneriaid, cyfranwyr a noddwyr y mae ein gwaith ni ym myd addysg, gwyddoniaeth a chymunedau yn bosibl. Gyda'ch help chi gallwn ffrwyno pŵer garddwriaeth, un garddwr ar y tro.

**E-bost:** membership@rhs.org.uk
**Gwefan:** rhs.org.uk

@The_RHS

/rhshome

the_rhs

@therhs

@rhshome

Rhif Cofrestru'r Elusen 222879/SC**038262**

**Rhannwch eich cefnogaeth i wlithod a malwod yn wildaboutgardens.org.uk**

**Llun y clawr cefn: Malwen ar ffyngau** © Jon Hawkins/ Surrey Hills Photography. **Darluniau gan Corinne Welch**